# ARGYMHELLION PWYLLGOR MWYNDERAU

17eg o FEHEFIN 2021

ARGYMHELLION PWYLLGOR MWYNDERAU
NOS Iau 17eg o Fehefin 2021
Ar Lein AM 7.00 O'R GLOCH YR HWYR

Presennol:
Cynghorwyr:
Erwyn Jones
Gwenlli Evans
Bedwyr Gwilym
Annwen Daniels
Mark Thomas
Ronwen Roberts

Ymddiheuriad:
Cynghorwyr:
Glyn Daniels
Mel Goch ap Meirion
Rory Francis

1. Yn sgil ymddiheuriad y Cadeirydd Rory Francis bu i'r Pwyllgor ethol Cadeirydd i'r cyfarfod hwn. Cafodd y Cynghorydd Erwyn Jones ei gynnig gan y Cynghorydd Annwen Daniels, a'i eilio gan y Cynghorydd Gwenlli Evans.

**2. Derbyn Ymddiheuriadau**
Ymddiheuriadau gan Gynghorwyr Rory Francis, Glyn Daniels, Mel Goch ap Meirion,.

**Argymell:** Derbyn yr ymddiheuriadau.

**3. Datganiad Buddiant Personol**
DIM

**4. Adroddiadau Caeau Chwarae Misol.**

**Cae Bryn Coed** – Yn dilyn cwyn gan riant lleol o'r matiau rwber du yn mynd yn danboeth mewn haul, i'r pwynt o losgi llaw plentyn bach, cysylltwyd gyda Rospa er mwyn cael arweiniad pellach. Derbyniwyd ymateb bod hyn yn un cwyn sydd yn codi efo'r math yna o fatiau rwber. Yr unig ffordd o waredu'r problem yw eu newid yn llwyr ar gyfer mathau eraill e.e. geotiles (lle all gwair dyfu drwy'r teil). Cytuniwyd i hel dyfynbrisiau ar gyfer y gwaith ac edrych i gwblhau'r gwaith gyda cyllid / praesept blwyddyn nesaf (2022/23). Cytuno i osod arwyddion ar y safle bod na risg ac ein bod yn gweithio ar ddatrysiad.

Ymunodd y Cynghorydd Bedwyr Gwilym a'r cyfarfod am 7.12yh.

**Cae Manod** – Angen peintio dros graffiti anweddus sydd tu cefn i arwydd y Cyngor Tref. Cynghorydd Gwenlli Evans yn fodlon ei beintio.

**Cae Gild** – Pryder wedi ei godi gan yr arolygydd am y twll yn y bwrdd picnic ar y safle. Cytuniwyd y byddai'r Cynghorydd Ronwen Roberts yn cael golwg arno i weld pa mor ddifrifol ydi'r twll.

**Cae Baltic** – Y gwastraff oedd wedi'i adnabod fel risg o Asbestos wedi ei dynnu gan gwmni pwrpasol, er nad yn Abestos roedd yn bwysig peidio a chymryd unrhyw risg. Mi fydd angen ychwanegu gwaith clirio cefn Cae Baltic i rhaglen waith y Swyddog cynnal a chadw pan mewn lle.

**Cae Sgwar Oakeley** – Ymholiadau wedi dod i mewn am ragor o arwyddion dim cwn o amgylch y cae.
Yn dilyn sgwrs efo Cameron Jones, mae'r cae pel-droed ar y safle yn llawn cerrig ar yr arwyneb, i'r pwynt lle nad oes modd i blant deifio wrth chwarae. Bydd angen gwneud ymchwil pellach o ran y cyflwr, a pa ddatrysiadau sydd yn bosib.

**Parc Sglefrio** – Angen gosod arwydd Covid nol ar y fynedfa. Trafodwyd yr pryder o'r llwybr gerdded at y parc yn fwdlyd ofnadwy, ac awgrymwyd cysylltu efo'r chwareli i weld os oes modd cael ychydig o wastraff llechi i wneud llawr llwybr caletach a llai mwdlyd.
Angen gwaredu'r ddau fin sydd wedi torri, a gosod 2 newydd wedi eu sementio i'r llawr.
Archwilydd wedi codi fod y ramp yn codi eto – angen trefnu i'w drwsio.
Bobl ifanc wedi holi am fwy o rampiau, edrych i gael cyfle iddynt drafod efo'r Cyngor Tref am eu syniadau.

**Y Parc** – Angen gosod arwydd Covid newydd yno. Angen derbyn pris i drwsio'r camau ar y ffram coeden.
Hen faterion yn parhau – sef y stwmp metal a concrid angen eu gwneud yn ddiogel, a trefnu'r 2 ffens rhwng y parc bach a gweddill y parc.
Plant wedi holi os oes modd cael gôls pel-droed yno.
Fydd angen i'r swyddog cynnal a chadw rhoi blaenoriaeth i'r materion yn y Parc.

**5. Diweddariad ar peilot torri gwaith yn Cae Sgwar Oakeley.**

Roedd y Cynghorydd Ronwen Roberts wedi derbyn sylwadau gan drigolion lleol fod baw ci yn broblem yn y cae. Mi fydd y gwair yn cael ei dorri mewn ychydig o wythnosau, a'r baw ci yn broblem erioed.

Un sylwad oedd bod diffyg ffens rhwng ochr y cae a'r ffordd, er mwyn arbed plant rhag rhedeg oddi ar y cae yn syth i'r ffordd. Cytuniwyd y byddai angen ymgynghori yn lleol efo'r trigolion, ac edrych ar opsiynau ffens posib wrth ystyired gwariant a cyllideb.

**Argymell**: Gwirio fod gweddill gwair Cae Sgwar Oakeley yn cael ei dorri diwedd mis. Angen ymgynghori gyda trigolion lleol os hoffent weld ffens wedi ei osod rhwng y cael pel-droed a'r ffordd fawr.

**6. Ystyried anfoneb Gwyn Tomos ar gyfer gwaith Caeau chwarae amrywiol.**

**Argymell: Cytuniwyd i'w dalu.**

**7. Diweddariad ar Partneriaeth y Parc.**

Roedd cyfarfod wedi ei drefnu yn y Parc i drafod camau nesaf i'r Partneriaeth y Parc ar nos Fercher yr 9fed o Fehefin, 2021. Er bod 4 unigolyn wedi datgan diddordeb, yn anffodus ni wnaeth neb fynychu ar y noson. Awgrymwyd i drio trefnu un cyfarfod eto, ac yna ystyried camau nesaf. Geirio'r cyfarfod fel cyfle i ddod a'u syniadau ymlaen. Awgrymu rhoi pamffled yn drysau tai sy'n gyfagos i'r parc. Posib cydweithio efo Bro Cast i greu fideo er mwyn hyrwyddo'r cyfarfod ymhellach.

Nododd y Cynghorydd Mark Thomas fod rhawiau ac offer garddio'r Partneriaeth ddim wedi ei ganfod ers symud 'container' Y Dref Werdd allan o'r compownd. Y Cynghorydd Ronwen Roberts wedi derbyn cadarnhad gan Y Dref Werdd bod y container wedi ei wagio cyn ei symud, ac wedi gadael yr offer yn y rhandir. Cytuniwyd i'r Clerc ysgrifennu at y Dref Werdd yn holi am leoliad yr offer.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Mark Thomas fod £306 yn balans cyfrif banc Partneriaeth y Parc.

**Argymell**: Ail-hyrwyddo'r cyfarfod Partneriaeth y Parc. Ysgrifennu at y Dref werdd er mwyn holi am leoliad yr offer garddio oedd yn y container.

**8. Trafod Cynllun plannu coed ar dir gyferbyn â Cwm Farm, Cwm Cynfal.**

**Argymell**: Y Pwyllgor yn gytûn efo'r cynlluniau.

**9. Cytuno ar gynnwys ffurflen gais am pecyn dechreuol 'Lleoedd Lleol ar gyfer Natur' – Cadwch Cymru'n Daclus.**

Cytuno i ymgeisio am y pecyn cychwynnol, gan fod y pecyn datblygiadol ar gyfer gerddi bwyd. Nid oedd y gymuned eisiau rhandiroedd, ac felly cytuniwyd ar berllan ffrwythau. Awgrymwyd creu taflen weithgaredd i blant, sy'n adnabod gwahanol goed a natur ar y safle, unwaith fydd y berllan mewn lle.

Holodd y Cynghorydd Bedwyr Gwilym os oedd modd derbyn y cais grant a gwblhaodd y Dref Werdd ar y safle i ddenu grantiau, er mwyn derbyn y gwaith ymchwil ac efallai rhoi cais ein hunain i'r dyfodol.

Cynghorydd Erwyn Jones a Mark Thomas yn gwirfoddoli i gwblhau asesiad risg i'r safle.

**10. Trafod lleoliad newydd posib i hysbysfwrdd y Cyngor Tref.**

Teimlad cryf y dylid ei osod yng nghanol y dref. Rhai awgrymiadau posib:

- Ger y Goeden Goffa
- Ar ffens bont caffi'r bont
- Ger y tren fach
- Tu allan i'r co-op
- Ger toiledau diffwys.

**Argymell**: opsiwn 1af i tu allan i'r co-op, ac yn archwilio'r gweddill yn dilyn ymateb gan y Co-op.

**11. Unrhyw fater brys**

Holodd y Cynghorydd Ronwen Roberts os oes modd cael coed ffrwythau wedi eu plannu yn Cae Sgwar Oakeley. Y Clerc i holi os bysa coed ar gael drwy'r Dref Werdd yn gyntaf.

Nifer o ymddygiad gwrth-gymdeithasol yn digwydd yn toiledau diffwys. Yr Heddlu yn ymwybodol.

Nododd y Clerc fod peintio offer y caeau chwarae yn cymeryd llawer hirach na'r disgwyl yn sgil y paent yn cymeryd hir i sychu.

Holwyd beth oedd y bwriad o ran y planters ar y stryd fawr. Y Clerc wedi derbyn dyfynbrisiau am

- Twtio cofgolofn Llan - £170
- Gardd Encil - £150
- Planters stryd fawr £107
- Sgwar Rawson - £155

Y Pwyllgor yn hapus efo'r dyfynbrisiau, ac eisoes wedi cytuno i'r gwaith mewn pwyllgorau blaenorol. Hapus i fwrw ymlaen efo'r prisiau.

Si bod y gwasanaeth cymunedol wedi ail-gychwyn, werth i'r Clerc holi ymhellach. O ran torri grwych o amgylch y Parc.

Arol trafodaeth hirfaeth, cytuniwyd i barhau i chwilota am ddyfynbris gosod ffens rhwng y parc bach a gweddill y parc, ac yna gwneud penderfyniad terfynol ar ei osod neu beidio bryd hynny.

Cyfarfod i ben am 8.41yh.